CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**2.12.21 (*gohirwyd o 25.11.21)***
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; JOJ; TAJ; RJ;IW;BJ; DP; DL; EO<br>**Ymddiheuriadau:** AR;DM; GW<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng John Griffith<br><br>Penderfynwyd gohirio y CCB (AGM) hyd nes bydd y Cyfrifon am 2020/21 i law gan Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd JG a JAJ ddiddordeb yn Eitem 7 Cynllunio.<br>Datganodd DAW ddiddordeb yn Eitem 5 Materion Cyllid – Cyflog Clerc |
| **3** | **Cofnodion**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 4/11/21 fel rhai cywir - (DAW/RJ)<br>Materion yn Codi<br>Arolwg Caeau Chwarae -<br>Adroddodd JAJ ei fod o a DAW wedi cynnal arolwg o Glan Menai a bod dipyn o waith adfer ar rai o'r cyfarpar a llwybrau. Roedd eu hadroddiad yn awgrymu'r canlynol:<br>- Trefnu glanhau (power wash) i fannau priodol ar y safle<br>- Adfer lloriau/llwybrau ar y safle<br>- Trin y ffrâm ddringo<br>- Adnewyddu ceblau y siglen fawr - holi cwmni CL Jones Bethesda<br>- Ail osod meinciau newydd gan nad yw'n bosib trwsio'r rhai sydd yna rŵan.<br>Cyflwynodd y Clerc amcan bris o wariant ar feinciau newydd fel a |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Picnic | Gwyrdd X 2 @ £445 | 890 |
| RFHAP02 | | |
| Sedd Captan i 3 | Gwyrdd X 1 @ £290 | 290 |
| RFPY008 | | |
| Mainc heb gefn | Gwyrdd X 3 @ £150 | 450 |
| RFBKB04 | | |
| Mainc HydePark hefo cefn (hon ar gyfer y Fynwent Gyhoeddus) | | |
| RFPY250 | 1 @ £445 | 445 |
| Cyfanswm | | £2075 |

Trafodwyd yr amserlen waith ac fe'i cymeradwy-yd yn unol â cheisio prisiau amgen gan CL Jones Bethesda. Cynigwyd gan DP ac eiliwyd gan DW

**Maes Chwarae Cae Gofeb** - Cytunwyd i BJ/JAJ/DAW gynnal adolygiad a chyflwyno rhaglen waith ar gyfer y safle yma hefyd. Dywedodd BJ nad oedd wedi cael sgwrs gyda'r mamau sydd â diddordeb mewn gwella ardal chwarae Cae Gofeb eto ond bydd yn cysylltu yn fuan a chyn yr arolwg er mwyn cael darlun clir o'u bwriadon.

Nodwyd bod arian grant CSYM o £1.5K wedi ei glustnodi ar gyfer caeau chwarae'r pentref ac fe gynigiodd BJ i'r arian yma fynd tuag at unrhyw wariant ar Gae Gofeb yn neilltuol. Eilwyd y cynnig gan EO

Cytunwyd ar ddau gynnig uchod yn unfrydol.

**Clwb Snwcer** - adroddwyd ar lythyr i law gan Mr John Ivor Roberts yn nodi nad oes ganddo ddiddordeb mewn ail-sefydlu'r Clwb Snwcer bellach ond y gallasai ail gyflwyno diddordeb pe byddai cynlluniau mwy sefydlog i law.

O ran y sefyllfa gyfreithiol gyda Phwyllgor Rheoli'r Neuadd adroddodd y Clerc bod Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir yn nodi bod y cytundeb presennol yn un cymhleth ac yn gwarantu cyngor pellach gan fargyfreithiwr. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i TAJ gysylltu â'r aelodau cyfredol dros y ffon i egluro'r sefyllfa a cheisio eu barn. Cytunwyd i'r Clerc gadw mewn cyswllt gyda Dylan Edwards Prif Swyddog Materion Eiddo CSYM.

**Les Clwb Bowlio** - trafodwyd gosod Hwb Gymunedol ar y safle gyda swyddog CSYM Dylan Edwards. Nododd bod cynnwys y les gyfredol yn eithaf syml er mwyn cadw'r costau Trosglwyddo Asedau i lawr ac o


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | ganlyniad ni all CCLlan is-osod rhan o'r safle i Grŵp LlanNi.<br><br>Awgrym Mr Edwards oedd i ail greu les ar gyfer y Lawnt Fowlio fuasai yn addas i hwyluso'r cais sydd dan sylw. Byddai hynny'n golygu creu les ar wahân i'r CPD a Lawnt Fowlio. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r camau hyn (TAJ/DAW) ac i RJ gadw aelodau'r Clwb Bowlio yn gyfredol o'r datblygiad hwn.<br><br>Cytunodd JAJ i gysylltu ag unigolyn sy'n ymwneud a 'Men's Shed' Llangefni i holi am gyngor a chefnogaeth i Grŵp LlanNi<br><br>Diweddarwyd y Cynllun gweithredu i greu fersiwn 4.11.21 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**IW** - nododd bod golau stryd uwchben y groesfan newydd ddim yn ddigonol i alluogi gweld defnyddwyr yn glir. Clerc i gysylltu ag Adran Gwaith Stryd CSYM<br><br>**RJ** - nododd bod y rithoedd ger Cae Gofeb angen eu hail osod. Cytunodd JAJ i weithredu.<br><br>- Holodd am arwyddion ' Croeso i Lannerchymedd' ar y 3 ffordd mewn i'r pentref. Cytunodd RJ i holi Clerc Bodffordd ac adrodd nôl i SR er mwyn gweithredu sefydlu arwyddion maes o law.<br><br>**JG** - adroddodd bod sefyllfa COVID 19 yn creu pryder ar yr Ynys gyda 99 achos dros nos yn ystod yr wythnos diwethaf. Anogodd pawb i fod yn wyliadwrus ac i ledaenu'r neges i gadw'n saff a diogel trwy'r gymuned.<br><br>- Prinder swyddi ym maes gofal y Cyngor Sir eto fe anogodd pawb i ledaenu'r neges.<br><br>- Cyfeiriodd at ddwy ddogfen ymgynghorol ar wefan y Cyngor sef Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Tai. Nododd y Clerc ei bod wedi cylchredeg y manylion at bawb yn ddiweddar.<br><br>**DP -** cyfeiriodd eto at yr angen i gael drych i wella gweledlàdd ym Mheniel. Cytunodd BJ i holi'r gymdogaeth.<br><br>- Holodd am sefyllfa gwagio biniau gwyrdd yn Eglwys Coedana. Yn dilyn trafodaeth cytunodd DP i ofalu am wagio'r bin pan fo angen.<br><br>- Diolchodd i bawb gyfrannodd at sicrhau gwasanaeth teilwng ger y Gofeb ar Sul y Cofio. Ategodd JAJ y diolch am y gefnogaeth gyda'r trefnu. Nododd y Clerc ei bod wedi anfon llythyrau diolch eisoes at y rhai gymerodd ran. |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **JAJ -** dymunodd ddiolch i GW/DAW a Mr John Ivor Roberts am eu cymorth i drefnu a sicrhau Coeden Nadolig i'r pentref eto eleni. Cytunodd y Clerc i ysgrifenu at Mr Roberts yn ffurfiol gan nad oedd yn dymuno cyflwyno bil am nol y goeden o Bae Trearddur. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Hydref** **£**<br>Scottish Power – bil trydan CPD Llan 143.26<br>Wybone – bagiau i roi yn y bocsus baw ci 122.38<br>360 Groundcare – cynnal a chadw cae CPD 540.00<br>(derbyniwyd ad-daliad namyn TAW gan CPD)<br>Scottish Power – trydan goleuadau dolig 43.29<br>Tegwen Owen – te Sul y Cofio nwyddau a gweini 41.44<br>Coeden Nadolig – Cae Coch Bae Trearddur 150.00<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Cyflog Clerc – Hydref Tachwedd a Rhagfyr 1633.47<br>+ 3 taliad ZOOM @ 14.39 yr un 43.17<br>NW Entertainment Systems – talu am logi<br>system sain ar gyfer Sul y Cofio 50.00<br><br>Balans cyfrif Cyfredol 2 Rhagfyr 2021 = £20,981.23<br>Balans cyfrif Wrth Gefn 2 Rhagfyr 2021 = £10,031.66<br><br>Nododd y Clerc bod cais am grant Cronfa Melin Wynt Chwaen Coch wedi bod yn llwyddiannus - £1400 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br><br>Angen trafodaeth:- Cais Ty'n Ffynnon Ffordd Caergybi.<br><br>Nodwyd cais i law a'i fod wedi gostwng y nifer o dai o 16 i 10. Pery'r pryder am barcio gan fod Ffordd Caergybi yn un o'r problemau parcio mwyaf yn y pentref. Ymhellach i hyn mae ateb Priffyrdd yn y cais yn nodi bod modd datrys unrhyw 'overflow' trwy barcio ar safle'r Stesion. Roedd teimlad cryf am hyn ymysg yr aelodau gan nad oes gan CSYM hawl i nodi hyn mewn ymateb ffurfiol gan fod y safle yn eiddo preifat y Cyngor Cymdeithas.<br><br>Adroddodd Cyng JG ei fod wedi trafod yr uchod gyda swyddogion Adran Cynllunio a Phriffyrdd a chwmni Cadnant sef asiant yr ymgeiswyr. Dywedodd ei fod yn bwriadu galw'r cais i mewn i Bwyllgor Cynllunio. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Cynigiodd TAJ ein bod yn ail-gyflwyno'r sylwadau gwreiddiol gan ychwanegu nad oes gan CSYM hawl i gyfeirio at barcio yn y Stesion. Eilwyd y cynnig gan DAW a chytunwyd yn unfrydol i'r Clerc weithredu hyn. |
| **7** | Unrhyw Fater Arall –<br>**Llythyr gan Mr John Ivor Roberts -**<br>Daeth llythyr i law gan yr uchod am yr ardal wyrdd ger yr Unedau Diwydiannol. Mae'n dymuno cofrestru ei ddiddordeb yn yr ardal trwy gyflwyno bwriad o osod nifer fechan o storfeydd dan glo yno. Byddai yn fodolon arwyddo les ffurfiol a thalu rhent am gyfnod penodol.<br>Trafodwyd opsiynau eraill, sydd wedi bod gerbron y Cyngor eisoes, a phenderfynwyd ceisio cyngor pellach ar rhain cyn dod i benderfyniad terfynol. Clerc i anfon llythyr at Mr Roberts yn egluro hyn.<br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383